Proffil

# Sgiliau Digidol

Graddedigion

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Pa sgiliau digidol ydych chi'n eu defnyddio yn eich swydd?**

Cyfathrebu a Chydweithio – "Rydyn ni'n defnyddio Teams gryn dipyn o ddydd i ddydd, er enghraifft mae gennyn ni hwb rydyn ni i gyd yn ei ddefnyddio i gyfathrebu â'n gilydd os oes ymholiad gan gwsmeriaid nad ydyn ni'n gwybod yr ateb iddo a gallwn ni weld oes unrhyw un arall wedi profi'r mater a bod ateb ganddyn nhw. Rydyn ni hefyd yn defnyddio hen ddigon ar yr ebost i gyfathrebu â chwsmeriaid a chydweithio gyda'r tîm taliadau i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n gywir."

Dysgu digidol – "Bob tri neu bedwar mis rydyn ni'n cael hyfforddiant ar-lein trwy hwb y cwmni fel y gallwn ni gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ein sgiliau digidol a dod o hyd i wybodaeth a'i defnyddio. Felly ar hyn o bryd mae gennyn ni un i sicrhau ein bod ni'n defnyddio'r systemau Microsoft yn gywir."

Gwybodaeth a llythrennedd digidol – "Mae gennyn ni lot o daenlenni Excel gyda data cwsmeriaid i weithio gyda nhw i sicrhau eu bod nhw'n cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw ac i baru data a gwybodaeth gyda'r adran daliadau."

**Ble wnaethoch chi ddysgu'r sgiliau digidol hyn?**

"Cafodd llawer o feddalwedd sylfaenol Microsoft ei gyflwyno yn y brifysgol ac roeddwn i hefyd yn gweithio pethau allan ar fy mhen fy hun a gyda fy ffrindiau ac yna dysgodd fy nghyflogwr lawer o'r stwff sy'n benodol i'r swydd drwy ddefnyddio eu hyfforddiant ar-lein."

## Oes unrhyw sgiliau digidol yr hoffech fod wedi'u dysgu cyn ichi raddio?

"Mae'n debyg mai dim ond gwella **hyfedredd technegol** yn gyffredinol achos bod bywyd yn eitha ar-lein erbyn hyn. Hefyd mynd dros **hunaniaeth a lles digidol** oherwydd rwy'n credu ein bod ni wir wedi ymdrin ag ochr y data ac ochr dechnegol pethau, ond nid sut i ddefnyddio'ch proffil ar-lein i'ch helpu i gael swydd a sut i bortreadu'ch hun.

**Pryd wnaethoch chi raddio o Brifysgol Aberystwyth?**


"2022"

**Beth fuoch chi'n ei astudio?**

"Seicoleg a Throseddeg"

**Beth ydych chi'n ei wneud yn broffesiynol ers graddio?**

"Rwy'n gweithio mewn Gwasanaethau Morgais ar gyfer TSB Banking felly yn cymryd taliadau ac yn ateb ymholiadau cwsmeriaid."



# Stephanie Mogridge